**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

**DEDDF SAFONAU A FFRAMWAITH YSGOLION 1998**

**DARPARIAETH YSGOLION CYFRWNG SAESNEG**

**RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN** yn unol ag Adrannau 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r unigolion priodol, yn cynnig:

Sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd â 2DM ar gyfer plant 3-11 oed ar ran o safle Canolfan Addysg Gymunedol Howardian, Hammond Way, Caerdydd CF23 9NB o fis Medi 2015.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn ar gael i'w ddarllen yn www.caerdydd.gov.uk/Ysgolionyr21ainGanrif

Bydd gan yr ysgol newydd 420 o leoedd i ddarparu ar gyfer yr ystod oedran 3-11 gan gynnwys 48 o leoedd meithrin Cyfwerth ag Amser Llawn (hynny yw, 96 o leoedd rhan amser).

Bwriedir gweithredu'r cynnig o fis Medi 2015.

O ran y cynnig ar gyfer yr ysgol newydd, cynigir y canlynol:

- Bydd yr ysgol yn ysgol gymunedol a bydd yn derbyn disgyblion sy'n fechgyn neu'n ferched.
- Ni fydd y trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol yn ôl gallu, nac ar gyfer bandiau disgyblion.
- Nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i'r ysgol yn y Dosbarth Derbyn (y grŵp oedran perthnasol), sef 4 neu 5 oed, yn ystod blwyddyn ysgol gyntaf y cynigion, fydd 60.

Bydd rhaid i rieni plant sy'n cael eu derbyn i addysg feithrin wneud cais am le yn yr ysgol o hyd os ydynt am i'w plentyn drosglwyddo i'r dosbarth derbyn. Ni fydd mynychu'r feithrinfa yn sicrhau y caiff y plentyn ei dderbyn i'r Ysgol.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r Ysgol a phennu'r meini prawf derbyn.

Bydd unrhyw drefniadau o ran trafnidiaeth i ddisgyblion yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar drafnidiaeth ysgol.

Cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion dan sylw, hynny yw erbyn 23 Mawrth 2015, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: YmatebionYsgolion@caerdydd.gov.uk

Rhaid i unrhyw wrthwynebiad a anfonir drwy'r post neu dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad y sawl sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â'i sylwadau ar hynny, cyn pen 7 diwrnod o'r diwrnod y gwneir penderfyniad ynghylch y cynnig.

Dyddiedig 24 Chwefror 2015

Llofnodwyd: Shaun Jamieson
Cyfreithiwr y Sir
Ar ran Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad. Ei fwriad yw egluro ei ystyr cyffredinol).

Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 2DM yn agor yn 2015.

Ar y dechrau bydd yr holl gyfleusterau ysgol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion oedran perthnasol y plant (h.y. y dosbarthiadau meithrin a derbyn) ym mlwyddyn academaidd 2015-2016 yn cael eu darparu ar safle Howardian, gan ddefnyddio'r adeiladau presennol a/neu adeiladau dros dro fel y bo'n briodol.

Bydd angen ymgynghori ar ddalgylch ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig a newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion presennol. Bydd angen i'r dalgylchoedd fod o faint ac mewn ardaloedd daearyddol sy'n gallu cynnal ysgolion â'r nifer o ddisgyblion a gynigir, a rhaid iddynt fod yn ddigon cyfleus i'r rhan fwyaf o ddisgyblion a rhieni yn yr ardal.

Os gweithredir y cynnig i agor yr ysgol newydd o fis Medi 2015, y bwriad yw na ellir gweithredu'r ymgynghoriad ar sefydlu dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig ac adolygu'r dalgylchoedd cyn mis Medi 2017.

Bydd y rhai sy'n dymuno cyflwyno sylwadau neu wrthwynebu'r trefniadau ar gyfer y dalgylch yn gallu gwneud hynny yn ystod yr ymgynghoriad hwn a gynhelir ar wahân.